# Arolwg ar Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i arolwg ar addysg a dysgu proffesiynol athrawon a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth, fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, ac ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Gonsortia Addysg Rhanbarthol.

Roedd yr arolwg yn targedu'r rhai sy'n gweithio yn y proffesiwn addysg yng Nghymru, a chafodd ei hyrwyddo ar-lein drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad, drwy rannu â grwpiau perthnasol a sefydliadau cynrychioliadol, cysylltu ag ysgolion yn uniongyrchol drwy e-bost, drwy gylchlythyr Addysg y Cynulliad a gwaith hyrwyddo yn ystod sesiynau addysg y Cynulliad ar yr ystâd a ledled Cymru.


## Dadansoddi'r Arolwg

**837** Cyfanswm yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd (roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn)

- **54.17%** o'r ymatebion gan **athrawon dosbarth**
- **18.32%** o'r ymatebion gan **uwch-reolwyr eraill mewn ysgolion**
- **16.57%** o'r ymatebion gan **lywodraethwyr ysgol**
- **11.05%** o'r ymatebion gan **gynorthwywyr addysgu**
- **5.66%** o'r ymatebion gan **weithwyr addysg proffesiynol eraill** (gan gynnwys athrawon cyflenwi, hyfforddwyr a darlithwyr)

## Nifer yr ymatebion i'r arolwg fesul ardal awdurdod lleol

Blaenau Gwent: 31
Pen-y-bont ar Ogwr: 42
Caerffili: 69
Caerdydd: 123
Sir Gaerfyrddin: 67
Ceredigion: 28
Conwy: 24
Sir Ddinbych: 12
Sir y Fflint: 24
Gwynedd: 35
Ynys Môn: 32
Merthyr Tudful: 19
Sir Fynwy: 14
Castell-nedd Port Talbot: 38
Casnewydd: 39
Sir Benfro: 31
Powys: 23
Rhondda Cynon Taf: 58
Abertawe: 46
Torfaen: 26
Bro Morgannwg: 82
Wrecsam: 18
Y tu allan i Gymru: 9



## I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:

**"Rwy'n gyfarwydd â'r newidiadau sy'n digwydd i'r cwricwlwm a'r newidiadau eraill sydd ar y gweill." (Cyfanswm yr ymatebion: 834)**

- Anghytuno'n gryf: 9.59%
- Anghytuno: 26.73%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 14.50%
- **Cytuno: 38%**
- Cytuno'n gryf: 11.15%

**"Rwy'n teimlo bod fy mharatoad ar gyfer y newidiadau sy'n digwydd i'r cwricwlwm a'r newidiadau eraill sydd ar y gweill yn dda." (Cyfanswm yr ymatebion: 834)**

- Anghytuno'n gryf: 22.66%
- **Anghytuno: 46.88%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 17.02%
- Cytuno: 11.99%
- Cytuno'n gryf: 1.43%

**"Credaf fod addysg gychwynnol i athrawon yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar athrawon drwy gydol eu gyrfa." (Cyfanswm yr ymatebion: 832**

- Anghytuno'n gryf: 17.42%
- **Anghytuno: 43.87%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 21.63%
- Cytuno: 15.74%
- Cytuno'n gryf: 1.32%

**"Rwy'n teimlo bod addysg gychwynnol i athrawon yn paratoi ac yn annog dysgu drwy gydol gyrfa." (Cyfanswm yr ymatebion: 831)**

- Anghytuno'n gryf: 13.11%
- **Anghytuno: 39.10%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 26.71%
- Cytuno: 19.25%
- Cytuno'n gryf: 1.80%

**"Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus presennol yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar staff yr ysgol i wneud eu gwaith yn effeithiol." (Cyfanswm yr ymatebion: 831)**

- Anghytuno'n gryf: 21.66%
- **Anghytuno: 39.47%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 21.66%
- Cytuno: 16.24%
- Cytuno'n gryf: 0.96%

## A oes unrhyw un o'r canlynol yn cyfyngu ar eich gallu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi? (Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn)

- **Llwyth Gwaith: 620 (77.69%)**
- Cost defnyddio athrawon cyflenwi: 491 (61.52%)
- Ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi: 324 (40.60%)
- Prinder athrawon cyflenwi: 262 (32.83%)
- Pellter teithio i'r lleoliad hyfforddi: 140 (17.54%)
- Arall:
  - Cost y cyrsiau: 58 (7.26%)
  - Argaeledd hyfforddiant: 31 (3.88%)
  - Ddim yn cael eu rhyddhau i fynd i sesiynau hyfforddiant: 27 (3.38%)

## Sylwadau neu argymhellion eraill a wnaed ynghylch y newidiadau i'r cwricwlwm ac i ddatblygiad proffesiynol parhaus:

**Ymgysylltiad â'r prifysgolion**: "Dim digon o ymgysylltiad â’r prifysgolion a cholli cyfleoedd i gynnwys hyfforddiant athrawon fel rhan o fodel darparu datblygiad proffesiynol parhaus. Gall prifysgol ganolog ymchwilio i effeithiau, gwneud gwaith treialu gyda gweithwyr dan hyfforddiant a'u rhannu rhwng gwahanol ysgolion, gan ddatblygu mewnbwn o ysgol i ysgol a hybu arferion myfyriol."

**Cynorthwywyr Addysgu**: "Ar hyn o bryd rwy'n credu nad oes digon o hyfforddiant ar gael i gynorthwywyr addysgu. Mae athrawon wedi dysgu'r sgiliau i “reoli” plant yn y dosbarth yn ystod eu cyrsiau gradd. Fodd bynnag, mae disgwyl i ninnau fel cynorthwywyr dysgu feddu ar y sgiliau hyn heb gael yr hyfforddiant priodol. Byddai rhoi sylw i hyn ar ddechrau gyrfa cynorthwyydd addysgu o fudd mawr."

**Cynorthwywyr Addysgu**: "Nid oes y fath beth â datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cynorthwywyr addysgu!"

**Ysgolion arbennig**: "Mae angen i ysgolion arbennig gael diwrnodau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i sicrhau digon o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae angen inni wneud llawer o gyrsiau gloywi hanfodol bob blwyddyn—cyrsiau meddygol, ymddygiad a rhai eraill—gan adael fawr ddim amser ar ôl ar gyfer cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus. Mae angen sicrhau rhagor o fynediad i gyrsiau, a dylai'r awdurdodau addysg geisio dod o hyd i lawer rhagor o ddarparwyr cyrsiau."

**Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysgol Arbennig**: "Credaf y dylai pob cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon gynnwys modiwlau sy'n ymdrin ag agweddau o anghenion dysgu ychwanegol. Ymddengys mai ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, sydd gan lawer o athrawon am yr anawsterau sy'n codi yn sgil hyn mewn lleoliadau prif ffrwd ac addysg arbenigol fel ei gilydd."

**Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysgol Arbennig**: "Mae angen rhagor o ymwybyddiaeth o anghenion addysgol arbennig ym maes hyfforddiant athrawon ac ym maes datblygiad proffesiynol."

**Perthnasedd yr hyfforddiant**: "Roedd yr hyfforddiant cychwynnol yn hollol amherthnasol ar gyfer diwrnod go iawn  yn y dosbarth. Rydw i'n cytuno bod y damcaniaethau a'r damcaniaethwyr yn bwysig o ran sut mae plant yn dysgu ond nid yw'r rhain wedyn yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Mae'r datblygiad parhaus presennol yn cael ei bennu gan yr uwch dimau arwain, ac mewn ysgolion sy'n fwy o faint dim ond ychydig iawn o gyfleoedd mae aelodau staff yn eu cael, os o gwbl."

**Perthnasedd yr hyfforddiant**: "Mae angen i addysg gychwynnol i athrawon fod yn fwy cadarn a realistig. Mae angen i ysgolion gymryd mwy o ran yn y cyfnodau hyfforddi a recriwtio gan fod llawer o athrawon yn gadael y proffesiwn ar ôl ychydig o flynyddoedd oherwydd pwysau'r llwyth gwaith a straen."

**Cyflymder y newid**: "Nid yw'n cael blaenoriaeth. Nid yw ysgolion yn cael digon o gyllid ar gyfer hyfforddiant. Mae cyrsiau Safon Uwch a TGAU yn cael eu cyflwyno ar frys ond nid yw'r gwerslyfrau yn barod i'w defnyddio. Ychydig iawn o hyfforddiant. Dysgu disgyblion heb allu ymbaratoi ymlaen llaw, a heb fawr ddim adnoddau."

**Cyflymder y newid**: "Mae'r rhan fwyaf o athrawon rwy'n siarad â nhw wedi ymlâdd yn sgil cyflymder y newidiadau a wynebwyd ym maes addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cyfrannu'n fawr at y llwyth gwaith anferth y mae athrawon yn ceisio ymdopi ag ef ar hyn o bryd."

**Cyflymder y newid**: "Roedd angen mwy o amser arnom ni cyn y lansiwyd y cwricwlwm newydd. Roedd y newidiadau i gymwysterau safon uwch a TGAU yn anferth ac nid oedd gan y byrddau arholi hyd yn oed ddigon o amser i ddarparu'r adnoddau i gefnogi'r athrawon. Pan lwyddon nhw i ddarparu adnoddau roedd ar frys neu fisoedd ar ôl i'r cwricwlwm newydd ddechrau. Rydw i wedi gweithio yn ystod pob cyfnod gwyliau i baratoi gwaith ysgol ond rydw i'n dal i deimlo fy mod yn ceisio dal i fyny."

**Cyflymder y newid**: "A gawn ni ragor o amser cyn gweithredu'r cwrs llawn newydd ar gyfer TGAU yng Nghymru? Ni chredwn ein bod yn barod, nac ein bod wedi cael ein hyfforddi'n iawn i'w roi ar waith."

**Cyflymder y newid**: "Mae pob newid yn y cwricwlwm yn gosod baich mawr ar athrawon, ac mae'n arwain at broses o adolygu ac ail-wneud yr holl adnoddau. Nid yw'r cymorth yn ddigonol ac nid yw'r arweiniad fel arfer yn amserol nac yn glir."

**Cyflymder y newid**: "Mae Adolygiad Donaldson wedi cael ei gymeradwyo'n fawr. Dylid ei weithredu o fewn cyfnod amser realistig, ac wedyn dylai fod cyfnod digonol o sefydlogrwydd heb ragor o ymyrraeth wleidyddol."

**Cyflymder y newid**: "Mae newidiadau i'r cwricwlwm yn rhy gyflym ac nid yw'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i hyfforddi athrawon ynghylch sut i gyflawni'r newidiadau hyn o'r gwaelod i fyny."

**Cyllid ac argaeledd**: "Mae angen cyllido ysgolion ac mae angen sicrhau bod hyfforddiant ar gael os yw athrawon yn mynd i allu gwneud ac ymgorffori newidiadau."

**Cyllid ac argaeledd**: "Os yw'n mynd i gael ei roi ar waith yn iawn, mae angen i'r llywodraeth fuddsoddi mewn hyfforddi ei hathrawon drwy roi arian ychwanegol i ysgolion er mwyn rhoi amser ychwanegol i athrawon baratoi cynlluniau gwaith, gwersi, adnoddau ac asesiadau."

**Cyllid ac argaeledd**: "Mae angen cyllid ar gyfer newidiadau a datblygiad proffesiynol parhaus. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld cwtogiadau mawr yng nghyllidau ysgol. Sut y gallwn gyflawni'r cwricwlwm newydd heb ddigon o arian i'w cefnogi? Os yw'r Llywodraeth am i addysg wella RHAID iddynt FUDDSODDI ynddi! "

**Cyllid ac argaeledd**: "Dylai pob athro gael cyllideb datblygiad proffesiynol parhaus. Dylai fod yn orfodol i ysgolion ganiatáu o leiaf un cyfle datblygiad proffesiynol parhaus a ddewisir gan yr athro bob blwyddyn. Dylid sicrhau cyllid priodol i gyd-fynd â newidiadau i'r cwricwlwm er mwyn rhoi amser i athrawon baratoi cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi yn effeithiol."

**Cyllid ac argaeledd**: "Mae cynorthwywyr addysgu ar ei hôl hi o ran hyfforddiant oherwydd cyllid. Nid oes gan ysgolion yr adnoddau i ganiatáu i aelodau staff gael amser i ffwrdd ar gyfer cyrsiau. Mae hyn yn annheg. Ni all cynorthwywyr addysgu ddatblygu—ac yn sgil hyn mae plant yn dioddef—pan nad ydynt wedi cael dysgu am y syniadau a'r addysg diweddaraf."

**Cyllid ac argaeledd**: "Yn sgil cwtogiadau yng nghyllidebau ysgolion a cholli staff nid oes digon o aelodau staff yn yr ysgol i gyflenwi dosbarthiadau er mwyn i athrawon fynd ar gyrsiau ac nid oes digon o arian i dalu athrawon cyflenwi. Mae'r sefyllfa'n druenus o drist."

**Angen cymorth**: "Wrth fy modd gyda'r syniad o gwricwlwm newydd, ac yn awyddus i'w roi ar waith, ond mae angen mwy o arweiniad, yn arbennig o ran y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a pharatoi ysgolion ar gyfer adnoddau digidol DIBYNADWY, gan gynnwys Wi-Fi."

**Angen cymorth**: "Er fy mod wedi cael hyfforddiant ac wedi astudio Dyfodol Llwyddiannus (rydw i hefyd wedi cwrdd â Graham Donaldson), rydw i'n teimlo bod cryn ddyfalu ar hyn o bryd ynglŷn â sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddysgu."

**Angen cymorth**: "Mae'r cymorth i athrawon ar gyfer y cwricwlwm newydd wedi bod yn druenus o annigonol. Fy mhrofiad i yw nad yw ysgolion,

athrawon a chyrff llywodraethu yn barod o gwbl am y newidiadau sylweddol hyn."

**Llwyth gwaith**: "Llwyth gwaith yw'r ffactor mwyaf. Er bod aelodau staff yn gallu mynd ar gwrs hyfforddi nid oes llawer o amser iddynt ymgorffori'r materion yn ymarferol oherwydd maint y llwyth gwaith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon o dan bwysau mawr ac nid oes ganddynt ond ychydig iawn o amser i roi syniadau ar waith."

**Llwyth gwaith**: "Mae athrawon yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol, ond maent yn methu symud ymlaen oherwydd y llwyth gwaith."

**Llwyth gwaith**: "Fel llywodraethwr rwy'n poeni am y ffaith bod yr athrawon yn gweithio oriau hynod o hir. Rydw i'n gweld rhinwedd yn y cwricwlwm newydd, ond nid ydw i am weld athrawon blinedig yn ceisio ei gyflawni."

## I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:

**"Mae gennyf ddealltwriaeth dda o rôl y consortia addysg rhanbarthol." (Cyfanswm yr ymatebion: 766)**

- Anghytuno'n gryf: 14.49%
- Anghytuno: 24.67%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 20.62%
- **Cytuno: 33.94%**
- Cytuno'n gryf: 6.65%

**"Rwy'n deall y gwelliannau y mae'r consortia addysg rhanbarthol yn ceisio eu gwneud." (Cyfanswm yr ymatebion: 767)**

- Anghytuno'n gryf: 15.38%
- Anghytuno: 30.63%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 18.64%
- **Cytuno: 31.29%**
- Cytuno'n gryf: 4.04%

**"Rwy'n gwybod am y cymorth y mae'r consortia addysg rhanbarthol yn ei roi i'm hysgol er mwyn gwella." (Cyfanswm yr ymatebion: 765)**

- Anghytuno'n gryf: 17.12%
- Anghytuno: 24.83%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 18.43%
- **Cytuno: 33.33%**
- Cytuno'n gryf: 6.27%

**"Rwy'n deall y cymorth y mae'r consortia addysg rhanbarthol yn ei roi i mi yn fy rôl yn fy ysgol." (Cyfanswm yr ymatebion: 761)**

- Anghytuno'n gryf: 22.99%
- **Anghytuno: 29.17%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 19.71%
- Cytuno: 22.99%
- Cytuno'n gryf 5.12%

**"Mae'r cymorth y mae'r consortia addysg rhanbarthol yn ei roi i'm ysgol yn ein helpu i wella." (Cyfanswm yr ymatebion: 763)**

- Anghytuno'n gryf: 18.74%
- Anghytuno: 24.77%
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 32.89%**
- Cytuno: 19.52%
- Cytuno'n gryf: 4.06%

**"Rwy'n deall rôl y consortia addysg rhanbarthol yn natblygiad athrawon ar bob lefel." (Cyfanswm yr ymatebion: 763)**

- Anghytuno'n gryf: 20.18%
- **Anghytuno: 32.89%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 24.90%
- Cytuno: 19.32%
- Cytuno'n gryf 2.62%

**"Mae fy nghonsortiwm addysg rhanbarthol yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a chynorthwywyr addysgu ar bob lefel." (Cyfanswm yr ymatebion: 763)**

- Anghytuno'n gryf: 24.24%
- **Anghytuno: 29.88%**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 29.61%
- Cytuno: 13.76%
- Cytuno'n gryf 2.49%

## Sylwadau eraill neu argymhellion a wnaed mewn perthynas â Chonsortia Addysg Rhanbarthol

**Cost ac argaeledd yr hyfforddiant a ddarperir**: "Mae llawer o'r cyrsiau a'r adnoddau yn rhy gostus i nifer fawr o aelodau staff elwa ohonynt."

**Cost ac argaeledd yr hyfforddiant a ddarperir**: "Mae angen cynnig llawer rhagor o gyrsiau a darparu llawer rhagor o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Nid oes digon o gyrsiau effeithiol neu berthnasol ar gael."

**Cost ac argaeledd yr hyfforddiant a ddarperir:** "Nid yw cyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u datblygu'n llawn eto."

**Addasrwydd y cymorth**: "Nid yw cynadleddau o fewn y consortia yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol neu maent yn rhoi sylw arwynebol iddynt mewn digwyddiadau o'r fath. Nid oes rhyw lawer o gyfathrebu rhwng ysgolion arbennig a chonsortia. "

**Addasrwydd y cymorth**: "Rydw i mewn ysgol werdd. Ychydig iawn o gysylltiad â'r consortiwm. Nid oes fawr ddim cymorth pwrpasol yn cael ei roi. Mae'r cwbl yn gyffredinol iawn."

**Addasrwydd y cymorth**: "Credaf y dylai cyllid fynd yn uniongyrchol i'r ysgolion. Ar brydiau, mae'r cyngor a gafwyd gan y consortia wedi bod yn groes i'r cyngor gan Estyn, sy'n peri gofid mawr!"

**Addasrwydd y cymorth**: "Gall eu mewnbwn a'u cymorth i sicrhau ansawdd a data fod yn anghyson ac yn groes i sylwadau Estyn."

**Addasrwydd y cymorth**: "Anghysondebau ymysg y consortia, anghysondebau gydag Estyn. Yn gyffredinol, mae gormod o anghysondebau a gwahaniaethau barn ac felly credaf nad oes modd gwneud unrhyw beth yn gywir."

**Addasrwydd y cymorth**: "Fawr ddim hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr addysgu o ran anghenion dysgu ychwanegol er ein bod yn gweithio mor agos gyda'r grwpiau hyn."

**Addasrwydd y cymorth**: "Mae'r consortia rhanbarthol i'w gweld yn haen arall o fiwrocratiaeth, rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol a'r ysgolion yn y pen draw. Yn bersonol, credaf y byddai defnyddio cyllid i ddarparu aelodau staff ychwanegol mewn ysgolion yn fwy priodol yn hytrach na chreu haen arall o fiwrocratiaeth. Mewn gwlad fach fel Cymru, pam na all Llywodraeth Cymru hepgor yr awdurdodau lleol a'r consortia a delio'n uniongyrchol ag ysgolion?"

**Ymwybyddiaeth**: "Nid oes gennyf unrhyw syniad pwy ydynt na sut y maent o fudd i'r ysgol."

**Ymwybyddiaeth**: "Nid ydw i wedi derbyn unrhyw gymorth uniongyrchol gan y consortia, ac nid ydw i wedi cael gwybod gan yr uwch-reolwyr am y cymorth sydd ar gael."

**Ymwybyddiaeth**: "Ni chredaf eu bod yn rhoi gwybod yn effeithiol am y gweithgareddau hyfforddi."

**Cysylltiadau â sefydliadau eraill**: "Dim digon o waith ar draws sefydliadau. Gall yr ymchwil a wneir yn y brifysgol fod o gymorth ond nid oes cysylltiadau'n cael eu creu."

**Cysylltiadau â sefydliadau eraill**: "Nid yw'r colegau addysg bellach wedi'u cynnwys yn y consortiwm lleol o ran rhannu arferion. Rydw i'n teimlo fy mod wedi cael fy ngadael allan o holl gyfundrefn y consortia rhanbarthol o ran datblygiad proffesiynol parhaus/rhannu arfer da. Mae'n debyg bod rheolwyr ein coleg yn ymwneud rhywfaint â nhw, ond ni welir hyn ar y lefel dysgu."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Mae consortia yn canolbwyntio'n ormodol ar herio, ac nid ydynt yn gwybod sut i roi cymorth. Yn enwedig ar lefel uwch ... Mae'r categoreiddio yn draed moch a dylid rhoi'r gorau iddo (yn enwedig yr israddio anghywir sy'n digwydd yn sgil y broses gymedroli a hynny heb unrhyw esboniad go iawn a chan bobl nad ydynt erioed wedi bod yn yr ysgol."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Maent yn bobl sydd ag ychydig iawn o wybodaeth ac nid ydynt yn pryderu ryw lawer am y pwysau a'r straen y mae staff addysgu yn eu hwynebu ac maent yn gwbl anwybodus o arferion addysgu modern. Rydw i'n croesawu cymorth a chefnogaeth, ond fy mhrofiad o ran y consortia yw bod y llwyth gwaith wedi codi a bod targedau afrealistig yn cael eu gosod."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Rydw i'n teimlo bod y consortia rhanbarthol yn dueddol o gymryd rôl yr arolygydd yn hytrach na helpu ysgolion a rhoi cymorth."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Mae gormod o haenau sy'n gwneud pethau tebyg, gan arwain at bwysau a straen sylweddol, a heriau ar gyfer ysgolion. Anghydbwysedd rhwng rhoi cymorth a herio, mae gormod o bobl yn herio ... a heb y gallu i ddarparu cymorth sylweddol."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Mae consortia addysg yn dueddol o ganfod diffygion yn hytrach na rhoi cymorth i ddatblygiad athrawon."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Mae angen i ERW roi cymorth i ysgolion ac i beidio â'u hystyried yn arf i'w beirniadu a'u hatgoffa'n gyson nad yw beth bynnag y maent yn ei wneud byth yn ddigon da. Morâl isel yn ERW, yn enwedig yng Ngheredigion."

**Herio ynteu roi cymorth**: "Ni chredaf eu bod yn rhoi digon o gymorth a chyngor. Nid ydynt yn ddigon ymarferol."